# PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS

# DYDD GWENER, 27 HYDREF 2023

**Yr Athro Ian Roffe** (Aelod Annibynnol) (Cadeirydd)

**Aelodau o Gyngor Sir Caerfyrddin:**
K. Howell, K. Davies a D. Jones;

**Aelodau o Gyngor Sir Ceredigion:**
E. Evans; K. Evans ac W. Thomas;

**Aelodau o Gyngor Sir Penfro:**
J. Grimes a S. Hancock;

**Aelodau o Gyngor Sir Powys:**
W. Powell, L. George

**Aelod Annibynnol:**
Mrs. H.M. Thomas;

**Yn bresennol o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu:**
Mr. D. Llywelyn - Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu;
Mrs. C. Morgans - Pennaeth y Staff;

**Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Swyddog Monitro'r Panel
K. Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
Prif Gyfieithydd

**Chamber - Ceredigion County Council - Neuadd y Sir, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA - 10.00 am - 1.02 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSONOLDEB A MATERION PERSONOL

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Liz Rijenberg (Cyngor Sir Powys)

Estynnodd y Cadeirydd, ar ran y Panel, gydymdeimlad â Mrs Helen Thomas yn dilyn marwolaeth ei brawd.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

| **Aelod** | **Rhif yr Eitem ar yr Agenda** | **Buddiant** |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd S Hancock | Pob eitem ar yr agenda | Mae aelod o'r teulu yn gweithio fel Swyddog Heddlu yn Heddlu Dyfed-Powys |
| Mrs H. Thomas | | Aelod o'r teulu yn gweithio i |

| | | |
|---|---|---|
| | | Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar Gyflog Teg a'r Fforwm Ieuenctid |

**3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 14 GORFFENNAF 2023**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2023 gan eu bod yn gywir.**

**4. MATERION YN CODI O'R COFNODION (OS OES RHAI)**

Ni chodwyd unrhyw faterion yn y cyfarfod.

**5. CWESTIYNAU A RHYBUDD GAN AELODAU'R CYHOEDD I'R COMISYNYDD**

5.1 Cwestiwn gan yr Athro Roffe

Gomisiynydd, mae cynlluniau parhaus y Swyddfa Gartref i ddefnyddio Gwesty Parc y Strade yn Llanelli i gartrefu ceiswyr lloches yn parhau i ddenu cryn sylw yn y cyfryngau ac yn cael effaith ar gydlyniant cymunedol. A fyddech cystal â rhoi amlinelliad o’r ymgysylltiad rydych wedi'i gael gyda'r Swyddfa Gartref ynghylch y mater hwn a pha gamau rydych yn eu cymryd i sicrhau nad yw Heddlu Dyfed-Powys yn cael ei roi mewn sefyllfa anfanteisiol mewn perthynas â’r gost o blismona'r lleoliad a'i berthynas â'r gymuned leol?

**<u>Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throseddu</u>**
Cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ar 10 Hydref, 2023 fod cynlluniau ar gyfer defnyddio Gwesty Parc y Strade ar gyfer ceiswyr lloches yn cael eu tynnu'n ôl.

Roedd llythyr wedi ei anfon i'r Swyddfa Gartref yn gofyn am atebion i’r cwestiynau ar y diwydrwydd dyladwy a gyflawnwyd wrth ddewis y safle.

Roedd ffigurau ar gost plismona oddeutu £300,000 ac mae sylwadau ynghylch ad-daliadau i'w cynnal yng nghyfarfod y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar 8 Tachwedd, 2023.

Dywedodd y Comisiynydd wrth y Panel, y byddai hefyd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cartref i ddarparu tystiolaeth o'r profiad.

Mae'r tîm cyswllt ysgolion yn ymgysylltu â chymunedau i gyfleu negeseuon cadarnhaol i wrthweithio’r elfennau negyddol y mae plant ifanc yn eu gweld ar gyfryngau cymdeithasol.

5.2 Cwestiwn gan Mrs Helen Thomas

Gomisiynydd, mae'r cynnydd diweddar yn genedlaethol o ran lladrata o siop wedi denu cryn sylw yn y cyfryngau. A yw Dyfed-Powys wedi gweld cynnydd tebyg a pha gamau rydych wedi'u cymryd, naill ai ar wahân i'r Prif Gwnstabl neu ar y cyd ag ef, i fynd i'r afael â'r broblem hon?

**<u>Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throseddu</u>**
Mae cynnydd cenedlaethol mewn troseddu, oherwydd yr argyfwng costau byw a gweithgarwch troseddu cyfundrefnol a difrifol. Er mwyn helpu i dargedu gweithgarwch troseddol, yr asedau fydd strwythur teledu cylch cyfyng sefydledig a system adnabod rhifau cofrestru cerbydau cywir.

Mae ailstrwythuro ar waith i gael mwy o swyddogion a fydd yn weladwy mewn trefi.

5.3 Cwestiwn gan y Cynghorydd Keith Evans

Gomisiynydd, mae adroddiadau diweddar wedi tynnu sylw at y peryglon y mae defnyddio e-sigaréts yn eu peri i bobl ifanc. Pa rôl sydd gan swyddogion cyswllt yr heddlu ag ysgolion, yn eich barn chi, wrth fynd i'r afael â'r mater hwn a pha gamau eraill rydych wedi'u cymryd neu'n bwriadu eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â'r broblem hon?

**<u>Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throseddu</u>**
Mae swyddogion cyswllt yn gweithio gydag ysgolion gan fod cynnydd yn y defnydd. Mae e-sigaréts wedi cael eu gwahardd i rai dan 18 oed, ond mae'n broblem yn enwedig i blant oedran ysgol.

Yn ystod Fforwm Ieuenctid diweddar ym Mharc y Strade, siaradodd pobl ifanc â'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl gan godi materion ynghylch cyffuriau. Mae canlyniadau'r arolwg yn ystod y digwyddiad wedi cael eu cynnwys yng ngwaith y Prif Gwnstabl.

5.4 Cwestiwn gan y Cynghorydd Keith Evans

Gomisiynydd, bydd y terfyn cyflymder cenedlaethol newydd o 20mya yng Nghymru yn effeithiol dim ond os caiff ei orfodi'n briodol. A ydych yn fodlon bod gennych ddigon o adnoddau i wneud hyn? A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r Prif Gwnstabl ynghylch y dull y bydd yr heddlu'n ei ddefnyddio o ran y gwaith hwn?

**<u>Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throseddu</u>**
Os yw'r cyfyngiad cyflymder yn lleihau marwolaethau, yna dylid cefnogi'r newid. Roedd miliwn o bobl wedi arwyddo'r ddeiseb ar-lein ac roedd angen trafod y newid ymhellach. Dros y 10 mlynedd diwethaf, bu gostyngiad o 20% mewn marwolaethau. Derbyniwyd buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru i gael newid ymddygiad. Bydd gorfodaeth yn cael ei weithredu. Bydd gan swyddogion plismona rôl weithredol, swyddogion Gan Bwyll yn bennaf. Roedd rhai o'r ffyrdd

mwyaf peryglus yng Nghymru ym Mhowys a Cheredigion, oherwydd cyfanswm y traffig, camgymeriadau gyrwyr a natur y ffyrdd.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Comisiynydd y byddai'n cysylltu â'r Rhingyll Ian Price i drafod materion hyfforddi gyda gwirfoddolwyr.

## 6. PROTOCOL PLISMONA - ADRODDIAD PERFFORMIAD

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd Hancock wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Panel yn ystyried adroddiad perfformiad mewn perthynas â'r Protocol Plismona ar gyfer Ch2 blwyddyn ariannol 2023-24. Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â Gorchymyn Protocol Plismona 2011, datblygwyd gwiriad i gwmpasu 50 o feysydd gweithredu. Mae'r gwiriadau yn cael eu cwblhau bob chwarter, i ddangos cynnydd parhaus.

Dyma'r sylwadau a godwyd a sut yr ymatebwyd iddynt:-

- Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Comisiynydd y bydd stondin gan yr Heddlu yn y Sioe Frenhinol y flwyddyn nesaf.

- Bydd galw am ragor o wybodaeth am dargedau ar gyfer lleihau effeithiau amgylcheddol.

- Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Comisiynydd i'r panel y bydd seminar cyllid yn cael ei chynnal ar 28 Tachwedd.

- Bydd digwyddiad drws agored yn cael ei gynnal ym Mhencadlys yr Heddlu yn yr hydref i ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 7. ADRODDIAD "DEEP DIVE" - STELCAN AC AFLONYDDU

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd Hancock wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Panel adroddiad Archwiliad Dwfn, yn craffu ar sut roedd Heddlu Dyfed-Powys yn rheoli rhai oedd yn stelcio ac aflonyddu. Roedd hwn yn faes pwysig ar gyfer gweithgarwch craffu, a oedd yn cyfrannu at y blaenoriaethau plismona a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu.

Dyma'r sylwadau a godwyd a sut yr ymatebwyd iddynt:-

- Rhoddodd y Panel ganmoliaeth i'r adroddiad a holl waith caled y swyddogion wrth baratoi'r wybodaeth.

- Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Comisiynydd y bydd cyllid ar gyfer y swydd yn cael ei rannu 50/50, rhwng Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r gyllideb brif ffrwd.

- Cadarnhaodd y Comisiynydd fod cronfa ddata newydd yn cael ei defnyddio i adrodd am ddigwyddiadau ar un system, er mwyn gwella'r broses o gofnodi troseddau.

- Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Comisiynydd y byddai'n rhoi copi o'r adroddiad i Heddlu Trafnidiaeth Prydain.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad**

## 8. CYNLLUN BUSNES SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd Hancock wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Panel yn ystyried adroddiad yn amlinellu sut y byddai Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn cyflawni blaenoriaethau y Cynllun Heddlu a Throseddu 2021/2025.

Dyma'r sylwadau a godwyd a sut yr ymatebwyd iddynt:-

- Rhoddwyd gwybod i'r Panel fod y canlynol 'Defnydd o Gyffuriau Anghyfreithlon', a ddaeth yn dilyn adroddiad Archwilio Dwfn 2019, wedi'i ohirio, oherwydd y system adrodd newydd. Bydd yn cael ei gynnwys yn y cynllun nesaf.

- Dywedodd y Comisiynydd wrth y Panel, y bydd y swydd gydweithredol gyda Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i gefnogi a hwyluso gwella cysylltiadau â sefydliadau academaidd, gan ddod ag ymchwil ac ymarfer at ei gilydd, yn ased i ddarparu Llu Heddlu modern a deinamig.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad**

## 9. PENDERFYNIADAU A WNAED GAN COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd Hancock wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Panel yn ystyried adroddiad ynghylch y penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd rhwng 29 Mehefin a 16 Hydref 2023. Dywedodd y Comisiynydd fod yr adroddiad yn cynnwys penderfyniadau nad oedd wedi cael eu cynnwys mewn adroddiad blaenorol.

Dyma'r sylwadau a godwyd a sut yr ymatebwyd iddynt:-

- Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd y Comisiynydd wrth y Panel, bod y blaen swyddfa yng Ngorsaf Heddlu Caerfyrddin, ar gau dros dro oherwydd prinder staff.  Bydd swydd wag yn cael ei hysbysebu i lenwi'r swydd a bydd y swyddfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8am-4pm.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

________________________ ____________________

**CHAIR** **DATE**